REF 2029

Research Excellence Framework

# Cod Ymarfer

## Enw'r sefydliad: Prifysgol Aberystwyth (PA)

## Dyddiad cyflwyno: 14 Mai 2026

---

### Tabl cynnwys:


Rhan 1: Cyflwyniad ..... 2

Beth yw REF 2029, a pham mae'n bwysig? ..... 2

Sut mae REF 2029 yn wahanol i asesiadau REF blaenorol? ..... 2

Beth yw diben Cod Ymarfer Prifysgol Aberystwyth ar gyfer REF 2029? ..... 3

1.1 Mae'r polisïau a'r prosesau a nodir yn y Cod hwn yn ategu egwyddorion REF 2029 o gadernid, tryloywder, a thegwch a chynhwysiant: ..... 3

1.2 Cyd-destunoli'r Cod o fewn Polisïau'r Sefydliad: ..... 4

1.3 Diweddariad ar y camau ers REF 2021: ..... 7

Rhan 2: Nodi Contractau Staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR) ..... 9

Rhan 3: Pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI) ..... 10

3.1 Polisïau a Gweithdrefnau: ..... 10

3.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant: ..... 11

3.3 Apelau: ..... 13

3.4 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA): ..... 13

Rhan 4: Dyrannu Contractau i UoAs ..... 15

4.1 Polisïau a Gweithdrefnau: ..... 15

4.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant: ..... 17

4.3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA): ..... 18

Rhan 5: Dewis allbynnau ..... 20

5.1 Polisïau a Gweithdrefnau: ..... 20

5.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant: ..... 26

5.3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA): ..... 27

Rhan 6: Atodiadau ..... 28

6.1 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... 28

6.2 Datblygu'r Cod, ymgysylltu â'r Cod ac adborth ar y Cod ..... 30

REF 2029
Research Excellence Framework

# Rhan 1: Cyflwyniad

**Beth yw REF 2029, a pham mae'n bwysig?**

Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yn system ledled y Deyrnas Unedig at asesu rhagoriaeth ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch (HEIs), gan ddarparu atebolrwydd am ymchwil a ariennir yn gyhoeddus ac asesu iechyd sector ymchwil y Deyrnas Unedig yn ei gyfanrwydd. REF 2029 yw'r diweddaraf mewn cyfres o'r asesiadau hyn o ansawdd ymchwil, sy'n gwerthuso enghreifftiau o'r ymchwil a wnaed ym mhob HEI dros gyfnod o ryw 7 mlynedd. Mae canlyniad llwyddiannus yn REF 2029 yn hynod bwysig i Brifysgol Aberystwyth (PA) am ei fod yn llywio lefel y cyllid ymchwil cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag ansawdd (QR) prif ffrwd y byddwn yn ei gael bob blwyddyn yn y blynyddoedd hyd at y cyflwyniad REF dilynol (sef ar hyn o bryd > £6m y flwyddyn o ganlyniad i'n perfformiad yn REF 2021). Mae canlyniad y REF hefyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein safle mewn rhestrau a thablau cynghrair, sydd yn ei dro yn effeithio ar ganfyddiadau allanol o'n gwaith ymchwilio ac addysgu.

**Sut mae REF 2029 yn wahanol i asesiadau REF blaenorol?**

Mae REF 2029 yn wahanol iawn i'r ymarferion asesu blaenorol mewn nifer o agweddau allweddol, yn fwyaf arbennig:

i) 'datgysylltu' staff unigol o'r allbynnau a gyflwynir i feysydd disgyblaeth REF (sy'n cael eu galw'n Unedau Asesu (UoAs)) a phwyslais ar asesu ar lefel y sefydliad a'r Uned Asesu (UoA),

ii) newidiadau yng nghyfnod y cyfrifiad ac wrth gyfrifo nifer yr allbynnau sydd i'w cyflwyno ar gyfer UoA benodol, a

iii) newidiadau yn y pwysoliadau, y disgrifiadau a'r gofynion ar gyfer y tair elfen sy'n ffurfio pob cyflwyniad i UoAs REF 2029

Mae agweddau eraill ar y REF blaenorol (REF 2021) heb eu newid, megis y gofyniad bod rhaid i bob aelod staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil ac Annibyniaeth Ymchwil gael ei enwi'n gywir fel y cyfryw, i sicrhau bod nifer y cyflwyniadau gofynnol ar gyfer pob UoA wedi'i gyfrifo'n gywir.

Mae REF 2029 hefyd yn ailadrodd pwyslais yr ymarferion blaenorol ar adolygiad gan gymheiriaid arbenigol ar gyfer asesu o dan UoAs sy'n seiliedig ar bwnc. Mae'r asesiadau'n ystyried ansawdd yn ôl tair elfen:

- Cyfraniad at wybodaeth a dealltwriaeth (pwysoliad o 55%) – sy'n disodli'r elfen Allbynnau yn REF 2021; mae wedi'i seilio ar asesu allbynnau ymchwil.
- Ymgysylltu ac effaith (pwysoliad o 25%) – sy'n disodli'r elfen Effaith yn REF 2021; mae'n cynnwys astudiaethau achos ynglŷn ag effaith.
- Strategaeth, pobl a'r amgylchedd ymchwil (pwysoliad o 20%) – sy'n disodli'r elfen Amgylchedd yn REF 2021 ac yn cynnwys mwy o bwyslais ar amgylchedd ymchwil ar lefel y sefydliad ac ar lefel yr UoA.

Fel yn yr REFs blaenorol, dyfernir graddau i bob elfen o gyflwyniad UoA i REF 2029 ar sail graddfa 5 pwynt (yn amrywio o 4* i U, sef di-ddosbarth), a bydd gradd gyffredinol ar gyfer cyflwyniad yr UoA hefyd yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio pwysoliadau'r tair elfen a aseswyd uchod.

REF 2029
Research Excellence Framework

**Beth yw diben Cod Ymarfer Prifysgol Aberystwyth ar gyfer REF 2029?**

Mae'r Cod Ymarfer (Cod) hwn yn ofynnol ar gyfer REF 2029 ac mae'n gosod y safon ofynnol ar gyfer cyfranogiad PA yn yr ymarfer. Mae'n ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn a'i diweddaru fel y bo'n briodol. Mae'r Cod yn disgrifio sut y bydd PA yn gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â'n cyflwyniad i'r ymarfer. Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â nodi contractau sy'n cyfrannu at fesuriad cyfaint REF (Rhannau 2 a 3 o'r Cod), dyrannu cyfaint i UoAs; Rhan 4 o'r Cod), a dewis allbynnau ymchwil i'w cyflwyno i REF 2029 (Rhan 5 o'r Cod). Ceir rhagor o wybodaeth am fodiwlau Mesuriad Cyfaint REF a Chyfraniadau at Wybodaeth a Dealltwriaeth yn y canllawiau cysylltiedig ar Cod Ymarfer REF 2029.

Wrth roi Cod PA ar gyfer REF 2029 ar waith, os bydd unrhyw bryderon yn codi ynghylch arferion yn PA nad ydynt o bosibl yn dilyn egwyddorion ac arferion y Cod, dylid rhannu'r pryderon hyn gydag Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, drwy vcostaff@aber.ac.uk lle bydd pryderon yn cael eu trin yn gyfrinachol.

1.1 Mae'r polisïau a'r prosesau a nodir yn y Cod hwn yn ategu egwyddorion REF 2029 o gadernid, tryloywder, a thegwch a chynhwysiant:

a) **Cadernid –** sicrhau bod y cyflwyniad i'r REF yn cynrychioli'r ymchwil sydd wedi'i gwneud yn PA yn gywir. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y contractau a nodwyd fel cyfranwyr at y mesuriad cyfaint yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r staff yn ddibynadwy; bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio'r polisïau a'r prosesau a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd yn flaenorol yng Nghod PA ar gyfer REF 2021 i nodi staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI).

   Disgrifir y prosesau hyn yn Rhan 2 a Rhan 3 o'r Cod hwn ar gyfer REF 2029.

b) **Tryloywder –** i'r holl staff ynghylch sut mae penderfyniadau ynghylch y cyflwyniad i'r REF yn cael eu gwneud, ac i sicrhau bod y prosesau a ddilynir yn deg i bawb, ac i ategu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff o'r Cod Ymarfer sy'n disgrifio'r prosesau hyn.

   Mae Cod PA ar gyfer REF 2029 yn adeiladu ar y profiad o God REF 2021, ac fe'i datblygwyd drwy gydweithredu â staff PA, grwpiau gwarchodedig, gweithgorau a phwyllgorau, yn ogystal â chydweithwyr Adnoddau Dynol, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, grwpiau sy'n gweithio'n strategol ar faterion EDI ac ar asesu ymchwil mewn modd cyfrifol, a chynrychiolwyr Undebau (gweler Atodiad adran 6.2 i gael rhagor o fanylion am y broses ymgysylltu a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â datblygu'r Cod).

   I ategu'r broses hon o ymgysylltu, mae gwybodaeth am y Cod wedi'i rhannu mewn gwahanol fformatau (trwy gyfarfodydd, trafodaethau a chyflwyniadau personol neu ar-lein, a thrwy gyfathrebiadau ebost yn gwahodd adborth dienw). Er bod hyd y ddogfen a phwysau amser ac adnoddau yn golygu mai dim ond trwy gyfrwng y Saesneg y gellid darparu'r Cod drafft i'w gylchredeg i'r staff, bydd fersiwn derfynol y Cod a gymeradwywyd gan Medr (a ragwelir tua Hydref 2026) ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

   Bydd y Cod a gymeradwyir yn 2026 (sy'n ddogfen fyw drwy gydol cylch yr REF) yn cael ei ddosbarthu trwy amrywiol sianeli priodol, gan gynnwys ebost i bob aelod staff (a anfonir at yr holl staff waeth beth fo'u rôl neu eu habsenoldeb) ac i restrau ebost 'staff sy'n weithredol mewn ymchwil'; drwy Fyrddau Adran/Sefydliad/Ysgol (sy'n agored i bob aelod o staff yr Adran/Sefydliad/Ysgol) a'u Grwpiau Arweinwyr Ymchwil; drwy Grwpiau Arweinwyr Ymchwil Cyfadrannau a Phwyllgor Ymchwilio ac Arloesi'r Brifysgol (sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr

Ymchwil, arweinwyr ymchwil, a staff gwasanaethau proffesiynol sydd â rolau blaenllaw mewn ymchwil); trwy Grŵp Uwch Arweinwyr y Brifysgol a Senedd y Brifysgol (sy'n cynnwys arweinwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o PA). Bydd tudalennau gwe a mewnrwyd staff yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (RBI) hefyd yn cael eu defnyddio i ategu dealltwriaeth y staff o'r REF a Chod PA, gan gynnwys drwy ddatblygu Cwestiynau Cyffredin, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a rhannu gwybodaeth. Bydd y Cod hefyd yn cael ei gyhoeddi a'i wneud ar gael yn allanol trwy dudalennau gwe PA, fel y bo'n briodol. Drwy ymgynghori ag adran Adnoddau Dynol PA, anfonir naill ai copi electronig o'r Cod wedi'i gymeradwyo trwy'r ebost neu gopi caled i'w cyfeiriad cartref presennol, fel y bo'n briodol.

c) **Tegwch a chynhwysiant –** sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ynghylch cyflwyniadau yn deg a diduedd ac yn ategu amrywiaeth pobl a'n hymchwil, lle mae cyfraniadau amrywiol yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant, wedi'i lywio gan ein hymrwymiad ledled y Brifysgol i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac i drin cydweithwyr ag urddas a pharch. Yn PA, mae EDI yn fwy na datganiad o sut y bydd y Brifysgol yn bodloni gofynion statudol. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o rolau a gweithgareddau sy'n ategu'n hymchwil, ac yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi amrywiaeth mewn arferion ymchwil a'n pobl. Rydym yn hybu diwylliannau ymchwil cynhwysol a theg, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y myfyrwyr a'r staff yn cofleidio tegwch ac amrywiaeth fel rhan hanfodol o sut rydym yn gweithredu, gan ymgorffori'r ffordd hon o weithio ym mhopeth a wnawn.

Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) ac Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg (WLIAs) i adeiladu ystyriaethau cydraddoldeb a thegwch i mewn i'n penderfyniadau, gan gynnwys yn benodol benderfyniadau ar y polisïau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r Cod a'r REF. Mae hyfforddiant EDI yn orfodol i holl staff y brifysgol, gan gynnwys hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod. Mae pawb sy'n ymwneud â phrosesau cynghori a phenderfynu'r REF yn cael hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys asesu ymchwil mewn modd cyfrifol ac amrywiaeth allbynnau.

## 1.2 Cyd-destunoli'r Cod o fewn Polisïau'r Sefydliad:

a) **Y Gymraeg, a thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)**
Mae'r ffaith bod PA yn dathlu'r Gymraeg ac amrywiaeth wedi'i hymgorffori yng nghenhadaeth graidd strategaeth y Brifysgol: "*Wedi'i gwreiddio yng nghefn gwlad Cymru, yn ymfalchïo yn ei dwyieithrwydd a'i hagwedd fyd-eang, mae Prifysgol Aberystwyth yn ysbrydoli pobl i newid bywydau er gwell ymhob cwr o'r byd*". Cafodd *Strategaeth 2030au* y Brifysgol ei lansio ym mis Mai 2025, ac mae hefyd yn nodi'r gwerthoedd sy'n llywio'n hymddygiad, gan gynnwys y canlynol sy'n sail i'n hagwedd at ddatblygu a defnyddio'r Cod Ymarfer hwn ar gyfer REF 2029:

- **Cydraddoldeb a chynhwysiant:** Rydym yn croesawu, yn cefnogi ac yn parchu pobl a safbwyntiau gwahanol a gwahanol ffyrdd o fyw a bod yn y byd.
- **Gyda'n gilydd:** Rydym yn cydweithio'n agos â'n gilydd i feithrin amgylchedd gwaith adeiladol a chynhyrchiol, lle mae pawb yn cefnogi ei gilydd, sy'n hybu pwysigrwydd ansawdd bywyd a boddhad yn ein gwaith proffesiynol.
- **Uniondeb:** Rydym yn meithrin ymddiriedaeth drwy ymdrin â'n gilydd â pharch, trwy gyfathrebu'n glir ac amserol, a thrwy fod yn agored am sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau.

Mae Strategaeth 2030au wedi'i seilio ar naw cynllun Prifysgol i helpu i gyflawni strategaeth PA, a'r cynlluniau sy'n fwyaf perthnasol yn uniongyrchol i God PA ar gyfer REF 2029 a'i egwyddorion yw '*Ein Pobl*', '*Yr Iaith Gymraeg*', '*Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant*', ac '*Ymchwil ac Arloesi*'.

Mae PA wedi ymrwymo i ddwyieithrwydd, gan geisio creu amgylchedd lle gall pob aelod o'r Brifysgol a'r gymuned deimlo'n gyfforddus yn eu dewis iaith, boed Cymraeg neu Saesneg. Ond y tu hwnt i gyfathrebu, mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod rôl ac arwyddocâd y Gymraeg mewn diwylliant a chymunedau.

Mae cynllun Iaith Gymraeg PA yn cyd-fynd â'r dyletswyddau statudol a roddir ar sefydliadau Cymru i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae Safonau'r Gymraeg yn esbonio sut mae disgwyl i'r Brifysgol ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn mynd y tu hwnt i driniaeth gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan osod dyletswydd strategol ar Medr (ac ar y sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Medr neu a ariennir ganddo) i hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad a thrwy ddarparu addysg. Mae Fframwaith Rheoleiddio Medr yn nodi'r egwyddorion arweiniol y bydd Medr yn ymgymryd â'u dyletswyddau rheoleiddio yn unol â nhw, yn unol â gofynion Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fel un o'r amodau ynglŷn â chofrestru a chyllido, mae Fframwaith Rheoleiddio Medr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau Cymru, lle bo'n briodol, gymryd pob cam rhesymol i hybu ac annog cynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Mae PA wedi mabwysiadu'r dull o ymgorffori EDI yn ein diwylliant, ein harweinyddiaeth, ein penderfyniadau ac ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol i greu amgylchedd gweithio a dysgu cynhwysol, cefnogol. Y nod yw i'r Brifysgol fod yn gymuned sy'n hybu ymdeimlad o berthyn lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys a'u cefnogi, yn rhydd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Cymuned lle mae unigolion yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, mewn amgylchedd lle gallant fod yn nhw eu hunain a chyrraedd eu potensial llawn.

Dangoswyd ymrwymiad y Brifysgol i EDI trwy gyflawni Gwobr Efydd Siarter Athena Swan ers REF 2021 (Medi 2023), statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (wedi'i adnewyddu 2025), 45ain yn y Deyrnas Unedig ar Fynegai Cydraddoldeb Gweithle Stonewall ac enillydd Gwobr Aur Cyflogwr Cynhwysol LGBTQ+ 2024, a Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol (Ebrill 2025). Mae hyn yn ychwanegol at sefydlu rhwydweithiau cydraddoldeb a grwpiau gwarchodedig dan arweiniad staff. Mae PA yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig, ac mae wedi ymrwymo i gau'r bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal dilyniant gyrfa a sicrhau bod ein grwpiau arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymuned PA (*e.e.* trwy gyflwyno polisi yn 2022 ar ddefnyddio contractau cyfnod penodol yn PA, i fynd i'r afael â'r mater o ansicrwydd contractau trwy sicrhau parhad cyflogaeth i staff lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl).

Mae PA wedi llofnodi'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr, ac wedi ymrwymo i'w egwyddorion. Mae polisi'r brifysgol yn sicrhau, pan ddefnyddir contractau cyfnod penodol (gan gynnwys ymchwil contract) a chontractau rhan-amser, bod y rhain yn cael eu defnyddio'n briodol a bod y staff yn elwa o'r un telerau ac amodau â staff sydd â chontractau amser-llawn neu benagored, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) mynediad at gyfleoedd datblygu gyrfa a hyfforddiant, cyfleusterau'r Brifysgol, a chyfranogi yn llywodraethiant a phwyllgorau'r Brifysgol.

Yn benodol o ran REF 2029 a Chod Ymarfer PA, mae'n polisïau a'n prosesau yn sicrhau nad yw staff ar gontractau cyfnod penodol a/neu ran-amser, a'r allbynnau ymchwil y maent yn eu cynhyrchu, yn cael eu trin yn llai ffafriol na staff penagored neu amser-llawn a'u hallbynnau ymchwil nhw.

Anfonwyd copi o'r Cod drafft at yr holl staff ar draws y Brifysgol (waeth beth fo'u rôl neu eu math o gontract, ac felly cafodd staff cyfnod penodol a rhan-amser mewn rolau academaidd ac anacademaidd eu cynnwys) a'u gwahodd i sesiynau agored i drafod y Cod. Cysylltwyd â Grwpiau Gwarchodedig a grwpiau allweddol eraill yn uniongyrchol hefyd i rannu'r Cod drafft a gwahodd adborth yn ystod sesiynau agored neu drwy lwybr dienw ar gyfer sylwadau – roedd y grwpiau hyn yn cynnwys y Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Rhwydwaith Anabledd a Llesiant, Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Rhwydwaith Staff LGBT, Grŵp Cymorth Peri/Post/Menopos, Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil, a'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar. Amlinellir y broses o ddatblygu'r Cod, ymgysylltu â'r Cod ac adborth ar y Cod yn llawnach yn Atodiad 6.2 o'r Cod hwn.

b) **Diwylliant/diwylliannau ymchwil cadarnhaol**

Mae blaenoriaethau allweddol cynllun Ymchwil ac Arloesi PA yn cynnwys galluogi ymchwil uchelgeisiol a gyflawnir ag uniondeb, a chreu diwylliant ymchwilio ac arloesi ffyniannus gan wella'n gallu i ymchwilio. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hategu drwy ddarparu strwythurau llywodraethu, canllawiau a chefnogaeth glir, wedi'u cydbwyso â chyfleoedd hyfforddi, datblygu a rhwydweithio i ymchwilwyr a staff sy'n galluogi ymchwil. Mae mentrau eraill sy'n anelu at wella diwylliant ymchwil cadarnhaol yn PA yn cynnwys:

- Hybu a lledaenu gweithgareddau ac allbynnau ymchwil yn fewnol ac yn allanol.
- Dathlu straeon llwyddiant ymchwil ar draws pob grŵp staff a llwybr gyrfa.
- Annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu grwpiau dan arweiniad ymchwilwyr, gan gynnwys Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil (WIRN) a'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar (ECR).
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliant ymchwil allanol, gan gynnwys mentrau yng Nghymru sy'n cynnwys Medr, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN).
- Trefnu digwyddiadau rhwydweithio cyson a fforymau ymchwil thematig i ysgogi cydweithredu ar draws disgyblaethau.
- Cynnig cymorth i weithgarwch ymchwil ac arloesi ar draws ein cymuned ymchwil, gan gynnwys cefnogi ymchwil ar draws disgyblaethau.
- Cynnig cymorth drwy gynlluniau a ariennir yn fewnol yn ogystal â chefnogi'r broses o ddatblygu ceisiadau cyllid allanol o ansawdd uchel.
- Sicrhau gwelededd, cydnabyddiaeth, datblygiad gyrfa a chynaliadwyedd i dechnegwyr drwy'r Ymrwymiad Technegwyr (a lansiwyd i ddechrau o fewn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)).

c) **Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol (RRA)**

Mae PA wedi ymrwymo i asesu ymchwil mewn modd cyfrifol. Mae wedi llofnodi Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA; a lofnodwyd yn 2020), ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Maniffesto Leiden a phedwar ymrwymiad craidd y Glymblaid er Hybu Asesu Ymchwil (CoARA). Sefydlodd y Brifysgol hefyd Grŵp Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol

(RRAG) ym mis Ionawr 2026, sy'n gweithredu mewn rôl gynghori, ac sy'n cynnwys naw aelod o staff sy'n cynrychioli amrywiaeth adrannau, pynciau, mathau ymchwil a chyfnodau gyrfa PA, a'r rheiny wedi'u recriwtio drwy alwad agored am fynegi diddordeb.

Mae'r prosesau asesu ymchwil a amlinellir yn Cod PA ar gyfer REF 2029 yn cyd-fynd ag egwyddorion datganiad Prifysgol Aberystwyth ar Ddefnyddio Metrigau Ymchwil mewn Modd Gyfrifol; sef bod asesu ymchwil yn PA wedi'i seilio ar brosesau adolygu arbenigol, ac y bydd unrhyw fetrigau a ddefnyddir i lywio ac ategu'r dyfarniad hwn yn cael eu dewis yn ofalus ac yn briodol gan ddibynnu ar gyd-destun a diben yr ymarfer sy'n digwydd.

Disgwylir i holl staff PA gwblhau hyfforddi a datblygu craidd mewn Amrywiaeth yn y Gweithle, Rhagfarn Ddiarwybod, Hil yn y Gweithle; rhaid cwblhau/diweddaru hyn cyn ymgymryd ag unrhyw asesiad o dan God REF 2029. Mae hyfforddiant craidd ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Diogelwch Gwybodaeth hefyd yn cael ei gynnig gan PA a rhaid iddo gael ei gwblhau neu ei ddiweddaru gan adolygwyr ac aelodau o grwpiau cynghori a phenderfynu sy'n cymhwyso Cod REF 2029. Hefyd, bydd yr adolygwyr hyn ac aelodau o grwpiau cynghori a phenderfynu sy'n cymhwyso Cod REF 2029 yn cael hyfforddiant mewn asesu ymchwil mewn modd cyfrifol ac mewn amrywiaeth mewn allbynnau ymchwil.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i addysgu staff a myfyrwyr ar ddefnyddio AI cynhyrchiol mewn modd cyfrifol a chyfreithlon, a chymwysiadau DA yn ehangach, gan gadw trylwyredd ac uniondeb academaidd yr un pryd. Mae Datganiad y Brifysgol ar y Defnydd o DA Cynhyrchiol wedi mabwysiadu'r set o egwyddorion a gynigiwyd gan Grŵp Russell ynghylch defnyddio DA cynhyrchiol. Mae datganiad PA hefyd yn egluro pwysigrwydd tryloywder wrth ddatgan pryd, ac i ba raddau, y mae DA cynhyrchiol wedi'i ddefnyddio gan staff neu fyfyrwyr. Mae hefyd yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer rhagfarnau a gwahaniaethu wrth ddefnyddio DA cynhyrchiol, yn ogystal â phryderon moesegol a phryderon posibl eraill o ran diogelu data a allai godi. Gan hynny, byddai unrhyw ddefnydd o DA cynhyrchiol wrth ddatblygu neu gymhwyso Cod REF 2029 neu yn y cyflwyniad REF ei hun yn cael ei nodi'n glir ac yn unol â pholisi a chanllawiau PA.

## 1.3 Diweddariad ar y camau ers REF 2021:

Mae nifer o fentrau allweddol wedi'u dilyn ers REF 2021, i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd arwyddocaol rhwng y rhyweddau (o ran staff a dyraniadau'r allbwn) a nodwyd gan yr EIAs a gynhaliwyd yn dilyn REF 2014 a REF 2021, a'r lefelau isel o amrywiaeth ethnig yn y Brifysgol ar draws pob rôl gan gynnwys ymchwil (er bod y lefelau ychydig yn uwch yn PA o'i chymharu â'r rhanbarth). Mae'r mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) hyn yn cynnwys:

- Datblygu rhwydweithiau a grwpiau gwarchodedig dan arweiniad staff sy'n bwydo'n uniongyrchol i'r agenda EDI trwy lwybrau adrodd ffurfiol (Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb, Rhwydwaith Anabledd a Llesiant, rhwydwaith staff LGBT, rhwydwaith staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Grŵp Cymorth Peri/Post/Menopos, a'r Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil).
- Adfywio'r Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil (WIRN), gan gynnwys cynrychiolaeth ym Mhwyllgor Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol.
- Lansio Gwobrau Gweledедd Prifysgol Aberystwyth, sy'n herio'r gynrychiolaeth ddominyddol o lwyddiant drwy ddathlu cyfraniad menywod ac aelodau staff anneuaidd i ymchwil PA y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu cydnabod yn fwy traddodiadol mewn ymchwil.

- Sefydlu Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar (ECR) bywiog a gweithgar, sy’n darparu cymorth a chyngor i bobl sydd â diddordeb mewn ymchwil ac sy’n ystyried eu hunain yn ymchwilwyr gyrfa gynnar yn PA.
- Mynd i’r afael â chwestiwn ansicrwydd contractau trwy gyflwyno polisi (yn 2022) ar ddefnyddio contractau cyfnod penodol yn PA, gan sicrhau parhad cyflogaeth i staff lle bynnag y bo’n rhesymol bosibl.
- Sicrhau Gwobr Efydd Siarter Athena Swan (Medi 2023) i gydnabod ymrwymiad PA i hybu cydraddoldeb rhywedd ar draws y Brifysgol.
- Adnewyddu statws PA fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (wedi’i adnewyddu yn 2025).
- 45ain ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn y Deyrnas Unedig ac enillydd Gwobr Aur Cyflogwr Cynhwysol LGBTQ+ 2024.
- Ymrwymiad PA i fynd i’r afael â hiliaeth ac i fynd ati i fod yn wrth-hiliol, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o wneud Cymru’n genedl wrth-hiliol.
- Sicrhau Gwobr Efydd Siarter Cydraddoldeb Hiliol (Ebrill 2025).
- Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn llofnodi’r Ymrwymiad Technegwyr (Mehefin 2025).
- Sefydlu Grŵp Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol (RRAG) yn PA.

REF 2029
Research Excellence Framework

## Rhan 2: Nodi Contractau Staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR)

Fel rhan o'r broses o dorri'r cysylltiad rhwng ymchwilwyr unigol a chynnwys cyflwyniadau REF, ac i gael gwared ar y cymhellion problemus a grëwyd trwy ddefnyddio un dyddiad cyfrifiad i bennu'r mesuriad cyfaint ar gyfer cyflwyniad REF pob sefydliad (e.e. fel y'i defnyddiwyd yn REF 2021*),* bydd REF 2029 yn defnyddio mesuriad cyfaint cyfartalog a bennir dros gyfnod cyfrifiad o fwy nag un flwyddyn, wedi'i gyfrifo o ddata cofnodion HESA y staff. Am y rheswm hwn, mae'n angenrheidiol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yn REF 2029 nodi'n gynhwysfawr yr holl gontractau staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR).

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae holl gontractau 'addysgu ac ymchwilio' (ACEMPFUN 3) y sefydliad yng nghofnod HESA y staff eisoes yn nodi'n gynhwysfawr yr holl staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil. Gan hynny, bydd pob contract staff o'r fath yn cael ei nodi fel un sy'n gymwys ar gyfer REF 2029 ar gofnod HESA y staff (REFQUALCON), a bydd cyfartaledd y CONFTE (y ganran o flwyddyn gyfwerth ag amser llawn a weithiwyd) o'r contractau hyn dros gyfnod blynyddoedd academaidd 2025-2027 yn pennu mesuriad cyfaint y staff ar gyfer eu UoA ar gyfer REF 2029 (REFUOA2029).

## Rhan 3: Pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI)

Fel yr amlinellir yn Rhan 2 uchod, i bennu'r mesuriad cyfaint ar gyfer cyflwyniad pob sefydliad yn REF 2029, defnyddir mesuriad cyfaint cyfartalog a bennir dros gyfnod cyfrif o sawl blwyddyn, wedi'i gyfrifo o ddata cofnod HESA y staff. Diffinnir Annibyniaeth Ymchwil (RI) gan REF 2029 fel ymgymryd ag ymchwil hunangyfeiriedig, yn hytrach na chynnal rhaglen ymchwil unigolyn arall yn bennaf, ac mae'n cyfrannu at y mesuriad cyfaint. Am y rheswm hwn, mae angen i sefydliadau sy'n cymryd rhan yn REF 2029 amlinellu'n glir y meini prawf a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i asesu annibyniaeth ymchwil contractau staff.

Mae'r adran hon yn berthnasol i'r cydweithwyr hynny yn PA y mae eu contractau yn 'ymchwil yn unig' (ACEMPFUN 2) yng nghofnod HESA y staff, hyd yn oed os yw eu Pennaeth Adran (HoD) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt (am wahanol resymau) addysgu neu ymgymryd â gweithgareddau eraill, nad ydynt yn gysylltiedig ag ymchwil.

Rhaid pwysleisio bod y broses hon o asesu annibyniaeth ymchwil contractau staff 'ymchwil yn unig' yn dylanwadu ar y mesuriad cyfaint sy'n ofynnol ar gyfer y cyflwyniad a wneir i REF 2029 yn unig; nid oes ganddi unrhyw effaith ar y rôl sy'n cael ei hasesu, nac ar ddilyniant gyrfa, nac ar gymhwysedd ymchwil gan yr aelod staff unigol fel cyfraniad posibl at gyflwyniad PA yn REF 2029.

### 3.1 Polisïau a Gweithdrefnau:

a) **Meini prawf a thystiolaeth**:

i. Tybir bod staff sydd â chontract ar Radd 8 ac yn uwch yn gweithredu o fewn rôl annibynnol mewn ymchwil, h.y. mae annibyniaeth ymchwil yn ddisgwyliad cynhenid yn eu contract, yn unol â meini prawf HERA a nodir [https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/agreement/academic-profiles/], ac fe gânt eu nodi felly yn ffurflen HESA y staff (REFQUALCON).

ii. Tybir nad yw staff sydd â chontract ar Radd 7 ac yn is yn gweithredu o fewn rôl annibynnol mewn ymchwil, yn unol â meini prawf HERA [https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/agreement/academic-profiles/], ac fe gânt eu nodi fel cynorthwywyr ymchwil (y rhai sy'n cyflawni rhaglen ymchwil unigolyn arall yn bennaf) yng nghofnod HESA y staff.

iii. Er hynny, cydnabyddir y gall staff Gradd 7 fod yn gweithio tuag at annibyniaeth ymchwil ac efallai eu bod eisoes yn gweithredu ar lefel o'r fath. Gall dangosyddion annibyniaeth ymchwil gynnwys (ymysg pethau eraill o bosibl):

   - gweithredu fel ymgeisydd arweiniol (Prif Ymchwilydd (PI)) ar brosiectau ymchwil a ariennir yn allanol;
   - dal cymrodoriaeth a enillwyd yn annibynnol, a ddyfarnwyd yn gystadleuol, ac sy'n gofyn am annibyniaeth ymchwil;
   - arwain grŵp ymchwil neu becyn gwaith sylweddol/arbenigol.

iv. Bydd proses adolygu, fel y'i disgrifir isod yn adran b.i, yn cael ei chynnal er mwyn nodi unrhyw aelod o staff dan gontract Gradd 7, ymchwil yn unig, sy'n gweithredu fel ymchwilydd annibynnol yn hytrach nag yn cyflawni rhaglen ymchwil unigolyn arall yn bennaf.

v. Ar ôl iddi gael ei nodi, bernir bod annibyniaeth ymchwil yn barhaus.

Gan hynny, bydd unrhyw aelod o staff dan gontract ymchwil yn unig a nodwyd yn flaenorol fel ymchwilydd annibynnol yn ymarfer REF 2021 yn dal i gael ei ystyried yn annibynnol o ran ymchwil ar gyfer REF 2029, oni bai bod newid arwyddocaol yn y contract wedi bod.

b) **Gwneud Penderfyniadau a Chyfathrebu**:

i. Ym mis Mawrth ym mlwyddyn academaidd 2024-25, sef y flwyddyn beilot ar gyfer meysydd sydd newydd eu cyflwyno ar gyfer REF 2029 yng nghofnod HESA y staff, cynhaliwyd adolygiad canolog o'r holl gontractau ymchwil yn unig Gradd 7 gan y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil yn y lle cyntaf, fel y'i disgrifir isod, er mwyn nodi'r staff hynny sy'n gweithredu fel ymchwilwyr annibynnol:
   - Adolygwyd rhestr o'r staff a nodwyd fel PI neu Co-I ar y cofnodion a ddelir yn fewnol ar gyfer grantiau ymchwil a ariennir yn allanol sy'n weithredol o fewn cyfnod cyfrifiad REF 2029, i nodi staff sy'n gweithredu fel aelodau staff sy'n annibynnol o ran ymchwil.
   - Nodwyd unrhyw aelod o staff dan gontract ymchwil yn unig sy'n dal cymrodoriaeth a enillwyd yn annibynnol, a ddyfarnwyd yn gystadleuol ac sy'n gofyn am annibyniaeth ymchwil fel ymchwilydd annibynnol. Defnyddiwyd y rhestr *Cymrodoriaethau Ymchwil* cymwys, a gyhoeddwyd ar gyfer REF 2029 [https://2029.ref.ac.uk/publication/research-fellowships/] fel cyfeirnod.
   - Adolygwyd y cyfrifoldebau a ddelir gan aelod o staff dan gontract ymchwil yn unig sydd â chontract penagored gyda'r aelod unigol o'r staff neu eu rheolwr llinell, a'r Partner Busnes AD perthnasol, i chwilio am farcwyr annibyniaeth ymchwil fel y disgrifir yn Rhan 3.1.a.iii.
   - Cwblhawyd y cylch cyntaf hwn o adolygiadau erbyn diwedd Gorffennaf 2025, i'w cynnwys mewn adroddiadau o fewn cofnod HESA y staff ar gyfer 2024-25.

ii. Cysylltwyd â'r holl staff dan gontract ymchwil yn unig a ystyriwyd yn y broses a amlinellwyd yn Rhan 3.1.b.i, uchod, erbyn 15 Awst 2025 i roi gwybod a oeddent wedi'u nodi fel ymchwilydd annibynnol, ac felly, yn dal contract sy'n gymwys fel un sy'n cyfrannu at y mesuriad cyfaint staff ar gyfer REF 2029 (REFQUALCON).

iii. O ddechrau blwyddyn academaidd 2025-26, bydd unrhyw aelod staff dan gontract ymchwil yn unig sydd newydd gael ei recriwtio yn cael ei nodi i gael ei asesu i weld a oes modd barnu bod y contract sydd ganddynt yn annibynnol o ran ymchwil yn unol â'r meini prawf yn Rhan 3.1.a.iii. Bydd hyn yn cael ei bennu gan y rheolwr llinell sydd wedi'u recriwtio, gyda chyngor gan y Partner Busnes AD perthnasol, a'i nodi yng nghontract cyflogaeth yr unigolyn.

iv. Bydd y broses hon hefyd yn cael ei chyflawni ar gyfer unrhyw aelod presennol o staff sydd o dan gontract ymchwil yn unig ac sy'n cael newid contract o ddechrau blwyddyn academaidd 2025-26.

## 3.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant:

a) **Rolau a Chyfrifoldebau**:

i. Bydd y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil[1] yn cwblhau'r adolygiad cychwynnol o bob rhestr staff gan ddefnyddio canllawiau mesuriad Cyfaint Staff REF 2029 [https://2029.ref.ac.uk/guidance/section-3-volume-measure-guidance/] fel cyfeirnod ynghylch sefydlu annibyniaeth ymchwil.

ii. Bydd cynnwys y canllawiau hyn yn cael ei raeadru i lawr i bob Partner Busnes AD unigol[2], fel eu bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn trafodaethau gydag aelodau staff unigol a'u rheolwyr llinell. Bydd tystiolaeth o'r marcwyr ar gyfer annibyniaeth ymchwil yn cael ei

[1] Cafodd y Rheolwr Monitro REF ac Ymchwil ei recriwtio trwy benodiad a hysbysebwyd yn gyhoeddus yn 2013, ac mae gan ddeiliad presennol y rôl dros 14 mlynedd o brofiad o gyflwyniadau REF fel y mae pethau yn 2025.

[2] Mae'r holl Bartneriaid Busnes AD wedi'u recriwtio trwy benodiadau a hysbysebwyd yn gyhoeddus.

chofnodi a'i chadw o fewn cofnodion REF, at ddibenion unrhyw archwiliad, tan flwyddyn ar ôl i ganlyniadau REF 2029 gael eu rhyddhau (diwedd 2030).

iii. Grŵp Cyflwyniad REF (RSG) (dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, ac a ddisgrifir yn llawn yn Rhan 5.2.a.v) sy'n gwneud penderfyniadau ar elfennau allweddol y cyflwyniad REF, ac a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol a ellir barnu bod contract cyflogaeth cydweithiwr yn dangos annibyniaeth ymchwil ai peidio.

b) **Hyfforddiant**:
Disgwylir i holl staff PA fod wedi cwblhau'r cyrsiau craidd canlynol: *Amrywiaeth yn y Gweithle*, *Rhagfarn Ddiarwybod*, *Gadewch inni siarad am Hil yn y Gweithle,* gan sicrhau bod eu gwybodaeth yn cael ei diweddaru o fewn tair blynedd ar ôl y tro diwethaf iddynt gwblhau pob cwrs. Mae'n ofynnol hefyd i'r staff gwblhau/diweddaru cyrsiau hyfforddi ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Diogelwch Gwybodaeth. Fe gadarnheir bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r prosesau penderfynu a amlinellir yma wedi diweddaru eu hyfforddiant.

## 3.3 Apelau:

i. Caiff unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch annibyniaeth ymchwil eu contract, h.y. bod y contract yn dangos neu'n methu dangos annibyniaeth ymchwil (os yw wedi'i nodi fel arall), trwy wneud achos â thystiolaeth, gan ddefnyddio'r meini prawf yn Rhan 3.1.a.iii.

ii. Dylid anfon apelau annibyniaeth ymchwil at ymchwil@aber.ac.uk, i alluogi Grŵp Cyflwyniad REF (RSG) i benderfynu a oes modd barnu bod contract cyflogaeth y cydweithiwr yn dangos annibyniaeth ymchwil ai peidio.

iii. O ran adolygiadau annibyniaeth ymchwil a gwblhawyd erbyn diwedd Gorffennaf 2025 (ar gyfer adroddiadau o fewn cofnod HESA y staff 2024-25), roedd ceisiadau i fod i ddod i law erbyn 19 Medi 2025 trwy ymchwil@aber.ac.uk. Roedd penderfyniadau ar unrhyw apêl i'w cyfleu i'r aelodau staff unigol erbyn 16 Hydref 2025, ac roedd statws y contract o ran REF 2029 i gael ei nodi ar gofnod HESA y staff.

iv. O fis Awst 2025 ymlaen, bydd apelau ynghylch canlyniad asesiadau annibyniaeth ymchwil yn cael eu hadolygu ar sail dreigl. Rhaid i apelau ddod i law yn ymchwil@aber.ac.uk o fewn 4 wythnos waith ar ôl i'r penderfyniad cychwynnol ar annibyniaeth ymchwil gael ei roi.

v. Bydd penderfyniadau ynghylch canlyniad apêl yn cael eu cyfleu i'r aelodau staff unigol o fewn 4 wythnos waith ar ôl dod i law yn ymchwil@aber.ac.uk, a bydd statws y contract o ran REF 2029 yn cael ei nodi ar gofnod HESA y staff.

## 3.4 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA):

i. Ar yr adeg hon yn natblygiad y Cod, asesiad ansoddol cychwynnol yw'r EIA sydd wedi'i gynnal ynghylch pennu annibyniaeth ymchwil.

ii. Bydd EIAs meintiol yn cael eu cynnal er mwyn cynnwys data gan yr holl staff ar gontractau addysgu ac ymchwilio, a chontractau ymchwil yn unig. Bydd yr EIAs hyn yn dadansoddi data ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, lle bo ar gael, gan gynnwys data ynglŷn â galluoedd yn y Gymraeg, a gweithio amser-llawn a rhan-amser.

iii. Yna bydd pob EIA yn cymharu'r nodweddion hyn rhwng y boblogaeth staff sy'n cyfrannu at y cyfaint, sef y rhai y pennwyd bod ganddynt contract gyda Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil neu Annibyniaeth Ymchwil, a'r boblogaeth staff nad yw'n cyfrannu at y cyfaint.

iv. I hwyluso dadansoddiad yr EIA, casglwyd data meincnodi ar ôl yr adolygiad cyntaf ym mis Mawrth 2025 a threfnwyd ei ailadrodd ym mis Medi 2025, ar ôl i unrhyw apelau a ddeuai i law

gael eu hadolygu (*d.s.* ddaeth dim apelau i law). Bydd y casgliad data hwn yn cael ei ailadrodd ym mis Medi 2026 a Medi 2027, er mwyn i EIAs gael eu cyflawni i asesu unrhyw newidiadau yn y poblogaethau staff dros y blynyddoedd pan fo'r staff yn cyfrannu cyfaint at REF 2029 yn y cofnod HESA.

v. Pan fo cyfran a nodwyd o'r boblogaeth o fewn yr EIAs mor fach (o dan 5) fel y gellid adnabod aelodau staff unigol, a lle mae hyn hefyd yn effeithio'n arwyddocaol ar y canrannau a adroddwyd, bydd yr EIA yn cydnabod hyn ac yn tynnu sylw at yr achos fel un sy'n cael effaith nodedig ar grŵp penodol ond ni fydd yn cynnwys unrhyw ffigurau penodol.

vi. Diben yr EIAs yw helpu PA i nodi unrhyw wahaniaethu anfwriadol posibl ym mhrosesau REF 2029 a nodi polisïau/arferion sydd ag effaith gadarnhaol neu gyfleoedd i hybu cydraddoldeb.

vii. Os canfyddir gwahaniaethu posibl, bydd PA yn cymryd camau i newid y polisi neu'r arfer neu i gyfiawnhau ei gadw o fewn cyfyngiadau cyfreithiol. Câi'r Cod ei ddiweddaru lle byddai'n briodol.

viii. Bydd pob EIA sydd wedi'i gwblhau yn cael ei gynnwys yn atodiadau'r Cod terfynol.

# Rhan 4: Dyrannu Contractau i UoAs

Mae'r mesuriad cyfaint ar gyfer REF 2029 yn cael ei gyfrifo dros gyfnod cyfrifiad cofnodion HESA staff aml-flwyddyn 2025-2027 trwy CONFTE cyfartalog y contractau staff a nodwyd fel rhai sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI), fel yr amlinellir yn Rhannau 2 a 3 o'r Cod hwn. Mae angen i'r contractau staff hyn sy'n cyfrannu at y mesuriad cyfaint gael eu mapio hefyd i'r UoA y maent yn gysylltiedig yn bennaf â hi (a nodir drwy ddefnyddio'r maes REFUOA2029 yng nghofnod HESA y staff). Mae'r adran hon o'r Cod yn disgrifio sut mae contractau sy'n cyfrannu cyfaint PA (REFQUALCON) yn cael eu dyrannu i UoAs.

Dylid nodi bod canllawiau Mesuriad Cyfaint REF 2029 yn cydnabod y gall dyraniad UoA newid rhwng y ffurflenni blynyddol, gan adlewyrchu natur esblygol ymchwil a chysylltiadau o bwys. Mae'r un canllawiau hefyd yn nodi, er y gall canolfannau cost HESA ac UoA fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol mewn llawer o achosion, ei bod yn dderbyniol iddynt beidio â chyd-fynd yn union cyn belled â bod y dyraniad contractau i UoA yn rhesymegol, a bod modd darparu rhesymeg dros y dull a ddefnyddiwyd. Mae'r hyblygrwydd hwn yn arbennig o bwysig ar gyfer sefydliadau llai, fel Prifysgol Aberystwyth, a allai fod â nifer o strwythurau sefydliadol at ddibenion addysgu sydd o reidrwydd yn llai ac yn canolbwyntio'n wahanol i grwpiau ymchwil y sefydliad.

Mae'n bwysig nodi hefyd nad oes rhaid i gyflwyniad REF 2029 ar gyfer UoA benodol gael ei ysgrifennu gan unigolion y mae eu contractau'n cyfrannu at y mesuriad cyfaint (ar lefel y sefydliad neu ar gyfer yr UoA honno). Yn yr un modd, nid yw allbynnau cymwys unrhyw aelod o staff wedi'u cyfyngu i gael eu cyflwyno yn yr UoA sy'n gysylltiedig â'u cofnod HESA.

## 4.1 Polisïau a Gweithdrefnau:

a) **Meini prawf a thystiolaeth**:

Un peth sy'n allweddol ar gyfer dyrannu contractau i UoAs yw'r gyfatebiaeth â'r meysydd disgyblaeth a ddiffinnir gan ddisgrifyddion yr UoA ac a nodir ym meini prawf a dulliau gwaith y Panel. Hyd nes y cyhoeddir Canllawiau Terfynol REF 2029 ar Gyflwyno a Meini Prawf a Dulliau Gweithio'r Paneli (a ragwelir yn Hydref 2026), bydd PA yn defnyddio disgrifyddion UoA REF 2021 wrth ystyried dyraniad contractau i UoAs.

Bydd nifer o fethodolegau'n cael eu defnyddio i bennu'r UoA fwyaf addas i ddyrannu contractau PA sy'n cyfrannu cyfaint (REFQUALCON) iddynt, ac mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu a'u croeswirio cyn eu dyrannu yng nghofnod HESA y staff gan ddefnyddio'r maes REFUOA2029. Disgrifir y dulliau hyn isod:

i. Ystyried strwythurau sefydliadol ffurfiol ynghyd â thystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil
Bydd sefyllfaoedd lle mae'r maes disgyblaeth (UoA) sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ymchwil contract sy'n cyfrannu cyfaint (REFQUALCON) yn cyd-fynd yn agos â strwythur sefydliadol un adran/ysgol/sefydliad lle delir y contract. Mewn achosion o'r fath, gall dyrannu'r contract hwnnw i UoA fod yn gymharol syml. Dyma'r man cychwyn ar gyfer ystyried dyraniadau UoA yn y fethodoleg hon.

Ond, fe fydd sefyllfaoedd hefyd lle mae'r maes disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r contract sy'n cyfrannu cyfaint yn llawer llai agos at faes disgyblu'r strwythur adran/ysgol/sefydliad, a/neu lle gall nifer o feysydd disgyblaeth fod yn berthnasol i weithgarwch ymchwil aelod o staff sy'n cyfrannu cyfaint. Yn yr achosion hyn, yn ogystal â'r strwythur sefydliadol lle mae'r contract yn cael ei ddal, edrychir ar linellau ychwanegol o dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil hefyd wrth ystyried y maes disgyblaeth mwyaf priodol sy'n gysylltiedig â'r contract cyfrannu cyfaint hwnnw.

Bydd y dystiolaeth hon sy'n canolbwyntio ar ymchwil yn cynnwys cysylltiadau â strwythurau ymchwil eraill y brifysgol (*e.e.* grwpiau ymchwil, Canolfannau, hybiau etc); cydweithrediadau ymchwil mewnol; cysylltiadau a chydweithrediadau ymchwil allanol; ffynonellau cyllid allanol; maes/meysydd disgyblaeth ymchwilwyr sy'n cael eu goruchwylio (h.y. staff heb RI, ac ymchwilwyr PhD); maes/meysydd disgyblaeth allbynnau ymchwil o fewn y cylch REF cyfredol.

ii. Dynodi aliniad ag UoA gan y staff, drwy enwebu allbynnau

Yn y cyfnod 4 Ebrill i 16 Mai 2025, gofynnwyd i'r holl staff a nodwyd fel rhai sydd â chontract sy'n cyfrannu at fesuriad cyfaint REF 2029 enwebu o leiaf un, ond hyd at uchafswm o dri, o allbynnau ymchwil wedi'u cwblhau o'r cylch REF cyfredol yr oeddent yn eu hystyried fel eu hallbynnau cryfaf o ran meini prawf REF, sef 'gwreiddioldeb, arwyddocâd a thryloywder'. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi, yn nhrefn eu haddasrwydd, hyd at dair UoA (a gâi eu dewis o blith y 34 o UoAs yn REF 2021) y mae pob allbwn yn cyd-fynd orau â nhw. Dywedwyd yn glir nad oedd yr ymarfer hwn yn golygu enwebu allbynnau i'w hadolygu, ond yn hytrach enwi'r meysydd disgyblaeth o weithgarwch ymchwil o fewn PA, fel y'u diffinnir gan yr ymchwilwyr sy'n cyfrannu cyfaint eu hunain.

Cwblhaodd cyfanswm o 76% o'r boblogaeth a nodwyd yr ymarfer a dadansoddwyd y data canlyniadol i bennu'r UoAs a nodwyd amlaf fel dewis cyntaf, ail a thrydydd dewis, yn ogystal ag amlder cyffredinol. Cafodd yr UoAs hynny y nodwyd y gallent gefnogi cyflwyniad allbwn o 9.99 FTE/25 eu nodi i'w hystyried ymhellach.

iii. Dadansoddiad modelu iaith o'r crynodebau allbwn a enwebwyd yn erbyn disgrifyddion UoAs REF 2021

Dyfeisiwyd a chynhaliwyd dadansoddiad modelu iaith gan grŵp bach o staff yn yr Adran Gyfrifiadureg a ddefnyddiodd grynodebau o'r allbynnau a enwebwyd yn yr ymarfer a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a.ii. a disgrifyddion yr UoAs yn REF 2021, i ddod o hyd i'r ffit agosaf.

Unwaith eto, nodwyd bod yr UoAs hynny y nodwyd y gallent gefnogi cyflwyniad allbwn o 9.99 FTE/25 wedi'u nodi i'w hystyried ymhellach, a'u cymharu, yn erbyn y rhai a nodwyd trwy'r ymarfer enwebu allbynnau.

b) **Gwneud Penderfyniadau a Chyfathrebu**:

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r meini prawf a nodir yn adran a, uchod, fe wnaed neu fe wneir y penderfyniadau canlynol ynglŷn â dyrannu contractau sy'n cyfrannu cyfaint i UoAs:

i. Contractau sy'n rhedeg o fewn blwyddyn academaidd 2024-25: Ar gyfer y prawf peilot o ddefnyddio cofnod HESA i bennu cyfaint, defnyddiwyd UoAs is-baneli REF 2021 wedi'u halinio ag adrannau ar gyfer y maes REFUOA2029. Nid yw'r data hwn yn dod o fewn cyfnod cyfrifiad REF 2029 ac nid yw'n cyfrannu at benderfynu ar y cyfrifiad cyfaint sydd i'w gyflwyno.

ii. Contractau sy'n rhedeg o fewn blwyddyn academaidd 2025-26 ymlaen: O ran blwyddyn academaidd 2025-26 ymlaen, bydd contractau unigol yn cael eu neilltuo i'r UoA fwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer yr ymchwil sy'n gysylltiedig â deiliad y contract drwy bob un o'r ymarferion a ddisgrifir uchod (Rhan 4.1.a). Pan fo mwy nag un UoA yn cael ei nodi, yr UoA a nodir amlaf fydd yn cael ei dewis. Pan nad yw'r UoA hon yn un o'r UoAs a nodwyd i'w cyflwyno gan PA, dewisir yr UoA sydd yn ôl addasrwydd y ddisgyblaeth yn agosaf at y rhai a nodwyd i'w cyflwyno gan PA.

iii. Bydd dyraniad contract unrhyw aelod staff sydd newydd gael ei recriwtio ac sy'n cyfrannu at fesuriad cyfaint REF 2029 i UoA yn cael ei bennu drwy'r aliniad ag UoA a nodwyd gan y staff drwy'r ymarferion enwebu allbynnau a ddisgrifir yn Rhan 5.1.

iv. Mapio aliniad rhwng gweithgarwch ymchwil a meysydd disgyblaeth yn y dyfodol: Byddai'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu contractau cyfrannu cyfaint i UoAs uchod (Rhan 4.1.a) hefyd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol yn ôl yr angen, *e.e.* ar ôl cyhoeddi disgrifyddion UoAs REF 2029; os ceir newidiadau yn strwythur y sefydliad; yn sgil datblygu'r portffolio ymchwil ymhellach; os ceir materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Mae'r cyfathrebiadau ynghylch dyrannu contractau sy'n cyfrannu cyfaint i UoAs fel a ganlyn:**

i. Trafodwyd y dull a gymerwyd yn yr ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a. gyda'r Grŵp Monitro REF a'r Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil ym mis Mawrth 2025; Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr Ymchwil Adran/Ysgol/Sefydliad ym mis Gorffennaf 2025; ac aelodau Senedd y Brifysgol (Tachwedd 2025).

ii. Lluniwyd canlyniadau'r ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a. gan y Rheolwr Monitro REF ac Ymchwil a'u cyflwyno i aelodau o'r Grŵp Monitro REF (RMG).

iii. Lluniwyd canlyniadau'r ymarfer enwebu allbwn a'u cyflwyno i Benaethiaid Adran/Ysgol/Sefydliad a'u Cyfarwyddwyr Ymchwil ym mis Gorffennaf 2025.

iv. Ac ystyriwyd canfyddiadau ac argymhellion yr holl ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a. gan y Grŵp Monitro REF.

v. Yna cyflwynwyd dull gweithredu, canfyddiadau ac argymhellion yr holl ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a. i'r Grŵp Cyflwyno REF i'w hystyried a'u trafod ym mis Mawrth 2026.

vi. Ar ôl trafodaeth ar lefel Adran/Ysgol/Sefydliad neu UoA, ac yna ystyriaeth gan y Grwpiau Goruchwylio Unedau (UOG – A & B, ac UOG – C & D), bydd y dyraniadau i UoAs a argymhellir ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 yn cael eu cynnig gan y Grŵp Monitro Ymchwil (RMG) a'u cadarnhau gan Grŵp Cyflwyno REF (RSG) cyn y cyflwyniad i HESA ym mis Hydref 2026. (Gweler y diagram sgematig yn Rhan 5.2.a i gael darlun o'r strwythur rheoli hwn).

vii. Bydd penaethiaid Adran ac aelodau staff unigol sy'n cyfrannu cyfaint yn cael eu hysbysu am ddyraniad UoA eu contract staff sy'n cyfrannu cyfaint o ran cwrteisi, gan bwysleisio bod y dyraniad hwn yn cael ei wneud er mwyn cyfrifo cyfaint ar gyfer REF 2029 yn unig, ar sail y math o gontract, ac nad oes gan y dyraniad i UoA unrhyw oblygiadau i'r unigolion dan sylw, gan gynnwys o ran disgwyliadau neu gyfyngiadau ar gyflwyno allbynnau i REF 2029; nid oes i'r dyraniad hwn unrhyw berthnasedd i'r unigolyn ychwaith o ran adolygu perfformiad neu ddyrchafiad.

viii. Byddai unrhyw newid yn y dyfodol yn y dyraniad UoA ar gyfer contractau staff sy'n cyfrannu cyfaint hefyd yn cael ei gyfleu i Benaethiaid Adran a'r aelod o staff dan sylw, yn unol â cham vii., uchod.

## 4.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant:

a) **Rolau a Chyfrifoldebau**:

i. Y Rheolwr Monitro REF ac Ymchwil fydd yn casglu canlyniadau'r adolygiad cychwynnol o'r ymarferion dyrannu UoAs.

ii. Bydd canfyddiadau ac argymhellion yr ymarferion dyrannu cychwynnol yn cael eu hystyried a'u cytuno gan y Grŵp Monitro REF (RMG; cynghori; dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi), cyn cael eu cyflwyno i'r Grŵp

Cyflwyno REF (RSG; gwneud penderfyniadau; dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, ac a ddisgrifir yn llawn yn Rhan 5.2.a.v) i adolygu'r dull ac ystyried y dyraniadau arfaethedig i UoAs.

iii. Yna bydd y dyraniadau arfaethedig i UoAs yn cael eu trafod gyda Phenaethiaid Adran/Ysgol/Sefydliad, Cyfarwyddwyr Ymchwil a/neu arweinwyr UoA (cynghori).

iv. Bydd y dyraniadau arfaethedig i UoAs hefyd yn cael eu hystyried gan y Grwpiau Goruchwylio Unedau (UOGs; cynghori).

v. Bydd y Grŵp Monitro Ymchwil (RMG; cynghori) wedyn yn diweddaru ac yn cwblhau eu hargymhellion ynghylch dyraniadau UoAs gan gyflwyno'r rhain i'r Grŵp Cyflwyno REF (RSG; gwneud penderfyniadau). RSG fydd â'r penderfyniad terfynol ar ddyraniad UoA.

vi. Bydd dyraniadau i UoAs yn cael eu rhaeadru i Benaethiaid Adran ac i'r unigolion sydd â chontractau cyfrannu cyfaint, a bydd y maes REFUOA2029 yn ffurflen HESA yn cael ei gwblhau yn unol â hynny.

b) **Hyfforddiant**:
Ar ben yr hyfforddiant a amlinellir yn Rhan 3.2.b. o'r Cod hwn, mae staff sy'n ymwneud â phrosesau cynghori a phenderfynu REF yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys ynghylch asesu ymchwil mewn modd cyfrifol ac amrywiaeth allbynnau.

## 4.3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA):

i. Ar yr adeg hon yn natblygiad y Cod, asesiad ansoddol cychwynnol yw'r EIA sydd wedi'i gynnal ynghylch dyrannu contractau sy'n cyfrannu cyfaint i UoAs.

ii. Ni ddylai dyrannu contractau sy'n cyfrannu cyfaint (SRR a RI) i UoA greu unrhyw oblygiadau (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) i'r staff sy'n gysylltiedig â'r contractau hynny gan nad yw'n cael unrhyw effaith ar allu unrhyw gontractau cymwys (ni waeth a ydynt yn cyfrannu at y mesuriad cyfaint) i gyfrannu eu hymchwil at y cyflwyniad i REF, ac nid yw'n dylanwadu ar yr UoA y gellir cyflwyno'r ymchwil iddi. Serch hynny, bydd EIAs meintiol yn cael eu cynnal i nodi unrhyw wahaniaethu anfwriadol posibl a/neu nodi unrhyw ganlyniadau neu gyfleoedd cadarnhaol i hybu cydraddoldeb. Bydd yr EIAs yn cynnwys data gan yr holl staff ar gontractau addysgu ac ymchwilio, a chontractau ymchwil yn unig. Bydd yr EIAs hyn yn dadansoddi data ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, lle bo ar gael, gan gynnwys data ynglŷn â galluoedd yn y Gymraeg, a gweithio amser-llawn a rhan-amser.

iii. Bydd yr EIAs hyn wedyn yn cymharu nodweddion o'r fath ar lefel yr UoA yn erbyn y boblogaeth addysgu ac ymchwilio ac ymchwil yn unig yn ei chyfanrwydd.

iv. I hwyluso dadansoddiad yr EIA, casglwyd data meincnodi ar ôl canlyniadau'r ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a.i, a luniwyd gan y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil ym mis Medi 2025. Bydd y casgliad data hwn yn cael ei ailadrodd ym Medi 2026 a Medi 2027, er mwyn i EIAs gael eu cyflawni i asesu unrhyw newidiadau yn y poblogaethau staff dros y blynyddoedd pan fo'r staff yn cyfrannu cyfaint at REF 2029 yn y cofnod HESA.

v. Pan fo cyfran a nodwyd o'r boblogaeth o fewn yr EIAs mor fach (o dan 5) fel y gellid adnabod aelodau staff unigol, a lle mae hyn hefyd yn effeithio'n arwyddocaol ar y canrannau a adroddwyd, bydd yr EIA yn cydnabod hyn yn syml ac yn tynnu sylw at yr achos fel un sy'n cael effaith nodedig ar grŵp penodol ond ni fydd yn cynnwys unrhyw ffigurau penodol.

vi. Diben yr EIAs yw helpu PA i nodi unrhyw wahaniaethu anfwriadol posibl ym mhrosesau REF 2029 a nodi polisïau/arferion sydd ag effaith gadarnhaol neu gyfleoedd i hybu cydraddoldeb.

vii. Os canfyddir gwahaniaethu posibl, bydd PA yn cymryd camau i newid y polisi neu'r arfer neu i gyfiawnhau ei gadw o fewn cyfyngiadau cyfreithiol. Gallai camau o’r fath gynnwys newid dyraniad UoA o gontract staff, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael drwy’r ymarferion a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a.i.1. a Rhan 5.1.d., lle nodwyd bod mwy nag un UoA yn ffit bosibl.

viii. Bydd pob EIA sydd wedi’i gwblhau yn cael ei gynnwys yn atodiadau’r Cod terfynol.

# Rhan 5: Dewis allbynnau

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2029) yw system y Deyrnas Unedig at asesu rhagoriaeth ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch (HEIs) yn y Deyrnas Unedig drwy broses o adolygiad arbenigol mewn unedau asesu (UoAs) sydd wedi'u seilio ar ddisgyblaethau. Yn ystod unrhyw gylch REF penodol, mae HEIs yn cynhyrchu mwy o allbynnau ymchwil nag a all gael eu hystyried yn rhesymol gan y paneli adolygu arbenigol hyn, ac felly mae'n rhaid i'r allbynnau a gyflwynir ar gyfer asesu ansawdd ymchwil gael eu dewis gan yr HEIs. Mae'r adran hon o'r Cod Ymarfer (Cod) yn amlinellu sut y bydd Prifysgol Aberystwyth yn gwneud y dewis hwnnw.

Y disgwyliad yn REF 2029 yw bod cyflwyniadau'n cynnwys ymchwil o'r ansawdd uchaf ar draws yr holl ddisgyblaethau y mae PA yn weithredol ynddynt. Ansawdd allbwn felly fydd y brif ystyriaeth ar gyfer cyflwyniad PA i REF 2029; ond dylai cyflwyniadau'r UoAs hefyd fod yn gynrychioliadol o amrediad y pwnc a'r amrywiaeth o weithgareddau ymchwil a gafwyd yn ystod cylch REF 2029 a ddisgrifir yn yr amlinelliad o waith ymchwil o fewn yr uned sy'n cyflwyno, ac a drafodir o fewn datganiad cynrychiolaeth).

Mae nifer yr allbynnau sy'n ofynnol ar gyfer elfen Cyfraniadau at Wybodaeth a Dealltwriaeth (CKU) cyflwyniad UoA yn cael ei bennu gan y mesuriad cyfaint yn ystod cyfnod y cyfrifiad (h.y. CONFTE cyfartalog y contractau REFQUALCON perthnasol a neilltuwyd i faes REFUOA2029; a drafodir yn Rhannau 2 a 3 o'r Cod hwn) wedi'i luosi â 2.5 (wedi'i dalgrynnu i'r nifer cyfan agosaf o allbynnau gyda gwerthoedd o 0.5 yn cael eu talgrynnu i fyny).

Gall allbynnau sy'n gymwys i'w hystyried ar gyfer REF 2029 gael eu cynhyrchu gan unrhyw staff sydd â disgwyliad o ymchwil o fewn eu contractau (gan gynnwys staff sy'n galluogi ymchwil) ac sydd â chysylltiad dangosadwy a sylweddol (yn wahanol i 'gysylltiad sylweddol' REF 2021) â PA o fewn cyfnod asesu REF 2029. Yn wahanol i ymarferion REF blaenorol, nid oes angen cynhyrchu allbynnau gan staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR) ac Annibyniaeth Ymchwil (RI) y mae eu contractau yn pennu'r mesuriad cyfaint o fewn cyfnod y cyfrifiad (a ddisgrifir yn Rhannau 2 a 3 o'r Cod hwn) yn unig, ac nid oes rhaid cyflwyno allbynnau i'r UoA sy'n gysylltiedig â chontract cyfrannu'r awdur. Gellir cyflwyno allbwn cymwys hefyd i fwy nag un UoA o fewn PA os yw o ansawdd priodol ac yn cyd-fynd â'r meysydd disgyblaeth a ddiffinnir gan ddisgrifyddion REF 2029 o'r UoAs hynny.

## 5.1 Polisïau a Gweithdrefnau:

a) **Dewis allbynnau i'w cyflwyno**

i. Mae cydweithwyr ymchwil yn cyflwyno allbynnau i system wybodaeth ymchwil gyfredol y Brifysgol (Pure) pan fyddant wedi'u derbyn i'w cyhoeddi/dosbarthu'n gyhoeddus, a byddant yn defnyddio Pure i gynnig hyd at chwe allbwn ar gyfer cyflwyniad REF, ynghyd ag arwydd (ar gyfer pob allbwn) o hyd at dair UoA y mae'r allbwn/allbynnau yn cyd-fynd fwyaf â nhw.

ii. I leihau'r risg o hunan-allgáu ac i wella cynrychiolaeth, bydd y broses hunan-enwebu (cam i, uchod) hefyd yn cael ei hategu drwy sgrinio rhestrau hir o allbynnau i nodi a blaenoriaethu allbynnau ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid. Bydd y sgrinio hwn yn cael ei wneud ar lefel Grŵp Cyflwyno UoA a/neu Grŵp Goruchwylio Uned, fel y bo'n briodol.

iii. Bydd allbynnau'r staff presennol yn cael eu hystyried i'w cyflwyno cyn unrhyw allbynnau gan staff sydd â chontractau a ddelid gyda'r sefydliad yn flaenorol. (Gweler hefyd adran 5.1.c.iii isod)

iv. Bydd penderfyniadau rhagarweiniol ar gymhwysedd allbwn ar gyfer REF[3] yn cael eu nodi gan y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil a'u cadarnhau gan briod Grŵp Goruchwylio Uned adran gartref yr unigolyn.

v. Ansawdd yw'r egwyddor sylfaenol ar gyfer cyflwyno allbwn, sef y byddwn yn cyflwyno'r eitemau gorau sydd ar gael i UoA. Bydd unrhyw allbynnau a gynigir i'w cyflwyno yn cael eu

[3] Hynny yw, a yw'n bodloni'r diffiniad o 'ymchwil' fel y'i rhoddir gan REF, yn ogystal â bodloni'r meini prawf ar gyfer allbynnau cymwys a nodir gan REF. Gallai hyn er enghraifft gynnwys penderfyniadau ynghylch a yw allbwn yn gymwys oherwydd y dyddiad y trefnwyd ei fod ar gael i'r cyhoedd.

hasesu o ran ansawdd a ffit gan y Grŵp Cyflwyno UoA perthnasol ar gyfer yr UoA a gynigir. Gellir croesgyfeirio allbynnau hefyd at Grwpiau Cyflwyno UoAs eraill a allai fod yn berthnasol fel y bo'n briodol, er enghraifft yn achos ymchwil amlddisgyblaeth neu ymchwil ryngddisgyblaethol.

b) **Nodi cyswllt sylweddol ag allbynnau**

i. Bydd cyswllt sylweddol ag allbwn yn cael ei nodi trwy unigolyn a gyflogir ar gontract cymwys, fel y'i diffinnir yng [nghanllawiau Cyfraniadau at Wybodaeth a Dealltwriaeth (CKU) REF 2029](), lle nad oes mwy na 15 awdur wedi'u rhestru ar yr allbwn.

ii. Pan fydd mwy na 15 o awduron wedi'u rhestru, cydnabyddir cyswllt sylweddol lle gellir dangos yn glir bod yr unigolyn a gontractiwyd gan y sefydliad wedi gwneud cyfraniad ymchwil sylweddol (SRC) at yr allbwn. Bydd canllawiau pellach ar ddangos SRC ar gael oddi wrth REF 2029 cyn diwedd 2026, ac wedyn bydd y Cod hwn gan PA yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny. Yn y cyfamser, os ydych chi'n enwebu allbwn sydd â mwy na 15 o gyd-awduron, gofynnir i gydweithwyr ddarparu datganiad naratif byr yn disgrifio'u cyfraniad i'r allbwn, a ddylai hefyd nodi ai nhw yw'r prif awdur neu'r awdur gohebol.

c) **Dewis allbynnau lle mae'r ddolen sylweddol trwy gyn-staff**

i. Mae REF 2029 yn ceisio datgysylltu'r cysylltiad rhwng aelodau staff unigol a chyflwyniadau unedau, ac mae'n gofyn bod cyflwyniadau wedi'u seilio ar ragoriaeth ymchwil a hefyd yn ystyried cynrychiolaeth amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil a gyflawnwyd yn ystod cylch y REF. Gan hynny, bydd unrhyw allbwn a gynhyrchir gan aelod o staff ar gontract cymwys (fel y'i diffinnir yng nghanllawiau CKU) o fewn cyfnod cyhoeddi cyfrifiad REF 2029 yn cael ei ystyried i'w gyflwyno gan PA, gan gynnwys allbynnau a gynhyrchir yn ystod cylch y REF gan staff sy'n destun diswyddo gorfodol. Ond, ni fydd allbynnau lle digwyddodd y cyswllt sylweddol cyn trefnu bod yr allbwn a gyflwynwyd ar gael i'r cyhoedd, yn gymwys i'w cyflwyno lle roedd yr awdur yn destun diswyddo gorfodol (yn unol ag adran 6.7.2 o'r canllawiau REF 2029 canlynol, https://2029.ref.ac.uk/guidance/section-4-contributions-to-knowledge-and-understanding-cku-guidance/).

ii. Bydd allbynnau'r staff presennol yn cael eu hystyried i ddechrau i'w cyflwyno cyn unrhyw allbynnau staff oedd â chontractau a ddelid gyda'r sefydliad yn flaenorol.

iii. Lle bo modd gwella ansawdd cyflwyniad yr UoA a/neu os nad yw'r cyflwyniad sydd wedi'i seilio ar allbynnau staff presennol yn cynrychioli amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil a wnaed yn ystod cylch y REF yn ddigonol ac os gellid ei wella heb gyfaddawdu ar ansawdd yr allbwn, fe fydd allbynnau staff sydd â chontractau a ddelid yn flaenorol gyda'r sefydliad yn cael eu hystyried i'w cyflwyno.

iv. Bydd goblygiadau camau ii) a iii) uchod yn cael eu hasesu o safbwynt pa mor gynrychioladol ydyn nhw fel yr amlinellir yn 5.1.e, -f a -g isod, a byddai hyn yn cynnwys cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i gymharu nodweddion staff sy'n gysylltiedig ag allbynnau a gynigir i'w cyflwyno yn erbyn nodweddion y gronfa ehangach; byddai hyn yn cynnwys dadansoddiad o statws a math y contract (*e.e.* staff presennol/cyn-staff, a pharhaol/cyfnod penodol, ac amser-llawn/rhan-amser).

d) **Aseinio allbynnau i UoA(s):**

Mae'r camau canlynol yn amlinellu'r prosesau ar gyfer aseinio allbynnau i UoAs, a phob cam wedi'i gynllunio i ategu allbynnau a allai fod wedi'u cysoni ag UoAs sengl tra hefyd yn ategu triniaeth deg ac ystyriaeth gyfartal o ymchwil ryngddisgyblaethol lle gall nifer o UoAs fod yn berthnasol:

i. Bydd yr UoA(s) a gynigir gan yr unigolyn sy'n enwebu (enwebu hyd at 3 UoA fesul allbwn) yn cael eu hystyried yn y lle cyntaf fel yr UoA(s) mwyaf priodol y dylid neilltuo allbwn iddynt.

ii. Bydd y gwaith modelu iaith a ddisgrifir yn Rhan 4.1.a.iii. yn cael ei ddefnyddio i lywio ymhellach yr UoA(s) mwyaf priodol ar gyfer aseinio'r allbwn.

iii. Bydd y Grwpiau Goruchwylio Uned (UOG – ar gyfer paneli A&B, ac UOG – ar gyfer paneli C&D) yn ystyried argymhelliad y Grŵp Cyflwyno UoAs (USGs) ynghylch yr UoA(s) mwyaf priodol y dylid neilltuo allbwn iddynt. Mae'r arweinwyr ar gyfer pob USG yn aelodau o'r UOG perthnasol, ac mae Cadeirydd pob UOG hefyd yn bresennol yn yr UOG cyfatebol; mae'r strwythur hwn (a ddisgrifir ymhellach yn adran 5.2) yn darparu ar gyfer ystyried argymhellion allbwn gan USGs unigol (a lluosog), a mecanwaith ffurfiol arall (yn ogystal â cham i, uchod) i dynnu sylw at allbynnau rhyngddisgyblaethol posibl i'w hystyried gan USGs eraill.

iv. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai allbwn yn cael ei ystyried i'w gyflwyno i fwy na dwy UoA yng nghyflwyniad PA i REF 2029; rhaid i gynnig o'r fath gael ei ategu ag achos naratif.

v. Yr RSG biau'r penderfyniad terfynol ynghylch pa UoA(s) y dylid neilltuo allbwn iddynt, ar sail yr argymhellion a wneir gan y Grwpiau Goruchwylio Uned (UOGs) a'r Grŵp Monitro REF (RMG).

e) **Gweithdrefnau ar gyfer ategu amrywiaeth allbynnau**

Mae PA yn parchu barn ddisgyblaethol ei hawduron ac nid yw'n defnyddio strategaeth cynhyrchu allbynnau i'r staff gadw ati. Gan hynny, cefnogir cynhyrchu unrhyw fath o allbwn ymchwil, ac nid oes unrhyw fath o allbwn ymchwil yn cael ei drin yn llai ffafriol nag un arall o fewn y sefydliad. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r iaith y cynhyrchir unrhyw allbwn ynddi; nid yw cynhyrchu allbynnau yn Gymraeg neu yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r rhai a gynhyrchir mewn unrhyw iaith arall (gweler adran h i gael rhagor o fanylion am sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni).

Cynhelir sesiynau hyfforddi Pure yn rheolaidd trwy gydol pob blwyddyn, gan gynnwys sesiynau pwrpasol o fewn adrannau, i helpu cydweithwyr i gofnodi ac enwebu allbynnau (a gynhyrchir mewn unrhyw fformat) trwy Pure. Bydd adroddiadau ar yr ystod o fformatau allbwn a gofnodir ar Pure, a'u cyfrannau cymharol, ar gael i arweinwyr Grwpiau Cyflwyno UoAs a Grwpiau Goruchwylio Unedau (UOGs) i gael gwybodaeth wrth ystyried amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil ar gyfer yr UoA.

Bydd cydweithwyr yn PA sy'n ymwneud â rolau cynghori neu benderfynu yn REF 2029 yn ymgymryd â hyfforddiant i helpu i hybu ymwybyddiaeth o amrywiaeth arferion ymchwil ar draws disgyblaethau ac o'u mewn, ac i ategu cydnabyddiaeth deg i wahanol fathau o ymchwil ac allbynnau ymchwil (gan gynnwys trwy ymchwil ryngddisgyblaethol) o fewn REF 2029. Mae cymorth hefyd ar gael ac yn cael ei roi gan Grŵp Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol (RRAG) PA.

f) **Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod cyflwyniadau yn gynrychioliadol o'r ymchwil a wnaed o fewn yr uned gyflwyno yn ystod cyfnod y REF:**

Ansawdd allbwn yw'r brif ystyriaeth ar gyfer cyflwyniad PA i REF 2029. Ochr yn ochr â hyn, mae'n ofynnol i HEIs sicrhau hefyd fod yr allbynnau a gyflwynir yn adlewyrchu strategaethau a strwythurau ymchwil, amrywiaeth allbynnau ymchwil, a chyfraniadau, cydweithrediadau a

phartneriaethau yr uned gyflwyno a strategaethau ymchwil yr uned. Mae canllawiau pellach i'w cyhoeddi ar y mater hwn o hyd (pryd y bydd y Cod hwn yn cael ei ddiweddaru).

Er hynny, ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cydbwysedd hwn yn cael ei gyflawni yn PA drwy ddefnyddio gwahanol linellau o dystiolaeth i archwilio'r ystod o weithgareddau ymchwil, pynciau, ac allbynnau ymchwil a gwybodaeth gysylltiedig ar gyfer UoAs. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o allbynnau a gofnodwyd ar Pure, dadansoddi allbynnau a gwybodaeth gysylltiedig drwy ddefnyddio SciVal, a dadansoddiad modelu iaith a gymhwysir at allbynnau (*e.e.* fel yr ymchwiliwyd wrth ddyrannu contractau i UoAs (Rhan 4.1.a.iii)).

Cafwyd dadansoddiad o'r holl allbynnau a gynhyrchwyd gan aelodau staff PA a nodwyd fel rhai sy'n dal contractau addysgu ac ymchwilio a chontractau ymchwil yn unig ers 1 Ionawr 2021, fel y'u cofnodwyd yn Pure, ym mis Gorffennaf 2025, sef hanner ffordd trwy gyfnod asesu REF 2029. Nododd y dadansoddiad hwn mai erthyglau oedd 65% o'r holl allbynnau a gwblhawyd, ac mai penodau mewn llyfrau oedd y math o allbwn oedd wedi'i gwblhau amlaf yng nghofnodion Pure ar y pryd (9%). Gwneir dadansoddiad tebyg ar boblogaeth yr allbynnau a enwebwyd a'r boblogaeth o allbynnau a ddewiswyd i'w cyflwyno, wrth i gylch y REF fynd ymlaen.

I leihau rhagfarn yn ystod unrhyw ddadansoddiad o'r fath, anogir ymchwilwyr a staff sy'n galluogi ymchwil i sicrhau bod y cofnod o allbynnau a gofnodir ar Pure yn ymestyn y tu hwnt i'r allbynnau a enwebwyd i'w hystyried ar gyfer cyflwyniad REF 2029, i gynnwys yr allbynnau i gyd. Cynigir sesiynau hyfforddi Pure yn gyson i ategu hyn, gan gynnwys sesiynau pwrpasol yn ôl yr angen.

Bydd Grwpiau Cyflwyno UoAs (USG), arweinwyr yr UoAs, Cyfarwyddwyr Ymchwil, a'r Grwpiau Goruchwylio Unedau (UOG – A&B, ac UOG – C&D) hefyd yn defnyddio'u harbenigedd a'u gwybodaeth am yr ymchwil a wnaed, o'r ymchwilwyr a'u strwythurau, ac o amrywiaeth yr allbynnau ynghyd â'r mewnwelediad o'r dadansoddiad uchod, i asesu a yw'r allbynnau a gynigir i'w cyflwyno yn gynrychioliadol o'r gwaith ymchwil a wnaed gan yr UoA benodol.

g) ***Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer arferion asesu ymchwil mewn modd cyfrifol***

Mae PA wedi ymrwymo i asesu ymchwil mewn modd cyfrifol, ac mae'r egwyddorion hyn yn sail i asesiadau a wneir fel rhan o'n paratoadau ar gyfer cyflwyniad REF 2029. Mae PA wedi llofnodi Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA, a lofnodwyd yn 2020), ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Maniffesto Leiden a phedwar ymrwymiad craidd y Glymblaid er Hybu Asesu Ymchwil (CoARA). Adolygiad gan gymheiriaid arbenigol yw'r prif ddull o asesu ymchwil ar gyfer REF. Pan ddefnyddir metrigau, gwneir hyn yn unol â'n defnydd cyfrifol o ymrwymiadau mewn metrigau ac mae'n cael ei ddefnyddio i ategu (nid disodli) adolygiadau gan gymheiriaid, neu'n cael ei gymhwyso gan ddilyn canllawiau is-baneli REF 2029 (sydd i'w cyhoeddi erbyn diwedd 2026; defnyddiwyd metrigau gan 11 o'r 34 is-banel o fewn REF 2021 i lywio asesiadau).

Bydd gwahoddiadau i enwebu allbynnau i'w hystyried ar gyfer REF 2029 yn cael eu dosbarthu i'r holl staff cymwys, gan eu hannog i enwebu'r allbynnau o'r ansawdd uchaf gan yr awdur/cynhyrchydd waeth beth fo'u fformat. Bydd amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil o fewn yr allbynnau a enwebir neu a asesir yn cael eu cymharu â'r allbynnau cymwys yn y gronfa, i asesu amrywiaeth yr ymchwil. Bydd asesiadau EIA hefyd yn cael eu cyflawni ar nodweddion gwarchodedig a math o gontract (*e.e.* staff presennol/cyn-staff, a pharhaol/cyfnod penodol, ac amser-llawn/rhan-amser) staff PA sy'n gysylltiedig â'r allbynnau a enwebir neu a asesir o'u cymharu â'r gronfa gymwys ac â nodweddion categorïau eraill o staff PA.

Hyd nes y bydd canllawiau terfynol REF 2029 yn cael eu cyhoeddi (pryd y bydd y Cod hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru), bydd pob allbwn cymwys a enwebir yn cael ei asesu drwy ddefnyddio canllawiau panel REF 2021 a meini prawf gwreiddioldeb, arwyddocâd a thryloywder, a hynny gan o leiaf ddau adolygydd, a'i drafod gan banel adolygu ar gyfer yr UoA berthnasol i gwblhau canlyniad yr asesiad. Mewn achosion lle mae Grwpiau Cyflwyno UoAs yn teimlo nad oes

ganddynt arbenigedd digonol i asesu'r allbwn (*e.e.* oherwydd yr iaith y cynhyrchir yr allbwn ynddi neu oherwydd diffyg arbenigedd technegol yn y pwnc), gellir cyfeirio'r allbwn at Grŵp Cyflwyno UoA arall i'w asesu, neu gellir defnyddio adolygydd mewnol neu allanol cymwys priodol (cyhyd ag y bydd y Grŵp Monitro REF yn cytuno). Bydd unrhyw sgoriau asesu a ddyrennir i allbynnau drwy'r broses hon yn cael eu defnyddio i lywio cyfansoddiad cyflwyniad PA i REF 2029 yn unig ac ni fyddant yn cael eu defnyddio gan PA at unrhyw ddiben arall, gan gynnwys fel rhan o unrhyw adolygiad perfformiad neu ddyrchafiad staff.

Nod y broses adolygu hon yw nodi'r allbynnau cryfaf i'w cyflwyno i REF 2029, ac adlewyrchu amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil a wnaed yn ystod cylch REF 2029. I adlewyrchu amrywiaeth ein hymchwil a'n hymchwilwyr, ni ddisgwylir fel arfer i nifer yr allbynnau sy'n gysylltiedig ag un contract cymwys fod yn fwy na'r uchafswm a argymhellir gan REF 2029, sef 5 allbwn.

Bydd Grwpiau Cyflwyno UoAs (USGs) a Grwpiau Goruchwylio Unedau (UOGs) yn cynnwys digon o aelodaeth i ganiatáu barn wybodus ar ansawdd yr allbynnau ar draws yr is-feysydd o fewn yr USG (neu ar draws cwmpas yr UOG perthnasol) a lle bynnag y bo modd, byddant yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth y gwaith ymchwil a'r ymchwilwyr sydd wedi'u halinio â'r uned honno neu'r prif banel hwnnw. Bydd hyfforddiant mewn materion EDI cyffredinol gan gynnwys rhagfarn ddiarwybod, a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a diogelwch gwybodaeth, yn cael ei ddiweddaru i'r holl adolygwyr a holl aelodau USGs ac UOGs, a fydd hefyd yn cael hyfforddiant ar asesu ymchwil mewn modd cyfrifol ac asesu allbwn ar gyfer REF, mewn amrywiaeth allbynnau ac arferion ymchwil, ac mewn asesiadau panel.

h) ***Gweithdrefnau i sicrhau nad yw allbynnau yn Iaith Arwyddion Prydain (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) a'r Gymraeg (yng Nghymru) yn cael eu trin yn llai ffafriol wrth ddewis allbynnau***

Mae PA yn parchu barn ddisgyblaethol ei hawduron ac nid yw'n defnyddio strategaeth cynhyrchu allbynnau i'r staff gadw ati. Nid yw cynhyrchu ac ystyried allbynnau yn Gymraeg nac yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r rhai a gynhyrchir mewn unrhyw iaith arall, gan gynnwys Saesneg. Ansawdd yr allbwn (yn nhermau Gwreiddioldeb, Arwyddocâd a Thryloywder REF) a fydd yn nodi addasrwydd yr allbwn i'w gynnwys yng nghyflwyniad REF 2029.

Bydd gan baneli REF 2029 ddarpariaeth benodol ar waith ar gyfer asesu allbynnau yn Gymraeg.


Adolygu gan gymheiriaid yw'r brif ffordd o asesu ansawdd allbynnau yn PA, gyda'r adolygiad gan gymheiriaid yn cael ei gynnal yn yr iaith y cyflwynir yr allbwn ynddi. Bydd adolygwyr yn cael eu hyfforddi fel yr amlinellir yn adran e, ac yn cyfeirio'n benodol at statws y Gymraeg. Bydd pob un o'r Grwpiau Cyflwyno Unedau a Grwpiau Goruchwylio Unedau yn cael eu cefnogi yn eu gwaith o asesu allbynnau Cymraeg.

Ar ben hunan-enwebu allbynnau a ddisgrifir yng Ngham 5.1.a.i, er mwyn lleihau'r risg o hunan-allgáu allbynnau Cymraeg ac i wella cynrychiolaeth, bydd y broses o hunan-enwebu (cam i, uchod) hefyd yn cael ei hategu drwy sgrinio rhestrau hir o allbynnau i nodi a blaenoriaethu allbynnau i'w hadolygu gan gymheiriaid. Bydd y gwaith sgrinio hwn yn cael ei wneud ar lefel Grŵp Cyflwyno Uned a/neu Grŵp Goruchwylio Uned, fel y bo'n briodol.

Rhannwyd y Cod drafft yn benodol gyda chydweithwyr yng Nghanolfan Gwasanaethau Gymraeg PA, a chyda'r ddau Ddirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Cyfadran dros y Gymraeg, i wahodd eu hadborth a'u trafodaeth ynglŷn â'r Cod drafft ar gyfer REF 2029. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg (WLIA) ar gyfer y Cod hwn yn unol â dyletswydd statudol PA i ystyried effaith pob penderfyniad polisi ar y Gymraeg o dan ofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Cyflwynir y WLIA hwn yn adran 6.1 o'r Atodiad.

5.2 Staff, Pwyllgorau a Hyfforddiant:

a) ***Rolau a Chyfrifoldebau***: *Disgrifir y strwythurau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r prosesau a amlinellir yn yr adran hon (Rhan 5) o'r Cod isod (Rhan 5.2.a.i-v) ac fe'u cynrychiolir yn y diagram sgematig canlynol:*




i. **Grwpiau Cyflwyno UoA** (**USG**; Rôl gynghori) – mae pob USG yn cael ei gadeirio gan Arweinydd UoA, gydag aelodaeth arbenigol sy'n cwmpasu amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil ar gyfer yr UoA. Mae pob USG yn cynnal ac yn cydlynu'r broses adolygu allbynnau, gan gynhyrchu rhestr o allbynnau ac eitemau wrth gefn yn eu trefn (gan gynnwys tystiolaeth ategol ar gyfer pwysoli a chyfraniad sylweddol at ymchwil) ar sail asesiad ansawdd ymchwil a chynrychiolaeth amrediad y pwnc a'r gweithgaredd ymchwil.

ii. **Grwpiau Goruchwylio Uned** (**UOG;** Rôl gynghori) – dau grŵp sy'n goruchwylio Grwpiau Cyflwyno UoAs unigol (USGs) ar gyfer Prif Baneli REF 2029 A a B gyda'i gilydd (**UOG – A&B**; dan gadeiryddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Ymchwil) yn achos Cyfadran y Gwyddorau), a Phrif Baneli C a D gyda'i gilydd (**UOG – C&D**; dan gadeiryddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gyfadran (Ymchwil) yn achos Cyfadran y Dyniaethau). Mae Cadeiryddion UOGs hefyd yn bresennol yn yr UOG arall. Mae pob UOG yn cynnwys aelodaeth arbenigol sy'n rhychwantu amrediad y pwnc ac amrywiaeth y gweithgareddau ymchwil ar gyfer UoAs PA o fewn eu priod Brif Baneli ar gyfer REF 2029, ac mae eu rôl yn cynnwys ystyried argymhellion USGs, gan gynnwys asesu cynrychiolaeth cyflwyniadau'r USGs.

iii. **Grŵp Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol** (**RRAG;** Rôl Gynghori) – dan gadeiryddiaeth Arweinydd Diwylliant Ymchwil PA. Mae RRAG yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad ynghylch

asesu ymchwil mewn modd cyfrifol yn PA, gan gynnwys i USGs ac UGs sy'n paratoi cyflwyniadau REF 2029 i'w hystyried gan Grŵp Cyflwyno REF PA.

iv. **Grŵp Monitro Ymchwil** (**RMG;** Rôl gynghori) – dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, gyda chymorth y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil (arweinydd gwasanaethau proffesiynol RMG) a'r Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil (arweinydd academaidd RMG). O fewn y broses hon, mae RMG yn darparu cymorth ac arweiniad technegol a strategol i USGs ac UOGs sy'n paratoi cyflwyniadau REF 2029, gan adolygu argymhellion a deunyddiau USGs ac UOGs cyn i'r rheiny gael eu hystyried gan y Grŵp Cyflwyno REF.

v. **Grŵp Cyflwyno REF** (**RSG;** Rôl gwneud penderfyniadau) – dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor. Mae'r RSG yn derbyn adroddiadau ac argymhellion gan yr RMG, yn ystyried ac yn gwneud penderfyniadau ar elfennau allweddol y cyflwyniad REF, ac yn cymeradwyo cyflwyniad REF y Brifysgol.

*b)* ***Hyfforddiant****:*

Ar ben yr hyfforddiant a amlinellir yn Rhan 3.2.b. o'r Cod hwn, mae pobl sy'n ymwneud â phrosesau cynghori a gwneud penderfyniadau REF, ac adolygu allbynnau hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys ynghylch asesu ymchwil mewn modd cyfrifol ac amrywiaeth allbynnau.

## 5.3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA):

Ar yr adeg hon yn natblygiad y Cod, asesiad ansoddol cychwynnol yw'r EIA sydd wedi'i gynnal ynghylch dewis allbynnau i'w cyflwyno i REF 2029. Ansawdd yr allbwn yw'r brif ystyriaeth ar gyfer cyflwyniad PA i REF 2029, lle mae ansawdd allbwn yn cael ei ddiffinio gan REF fel un sydd wedi'i seilio ar asesiad o Wreiddioldeb, Arwyddocâd a Thrylwyredd. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod bod allbynnau ymchwil yn cael eu cynhyrchu am lawer o resymau ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol, ac nad yw pob allbwn sy'n cael ei gynhyrchu yn addas (neu o reidrwydd wedi'i fwriadu) ar gyfer REF. Gan hynny, ni ddylid ystyried p'un a yw allbwn wedi'i gynnwys o fewn cyflwyniad PA i REF 2029, yn unrhyw arwydd o ansawdd yr allbwn a'r ymchwil gysylltiedig, neu fel adlewyrchiad ar yr aelodau staff sy'n cynhyrchu'r allbwn.

Mae'r EIA cychwynnol yn nodi, o ran REF 2029, fod allbynnau yn cael eu datgysylltu oddi wrth unigolion (allbynnau sy'n cael eu cyflwyno i REF, nid pobl), ac felly ni ddylid gweld unrhyw effeithiau andwyol yn sgil prosesau dethol ar unigolion neu grwpiau gwarchodedig. Mae cymhwysedd allbynnau a bodolaeth cyswllt sylweddol hefyd yn ymwneud â'r allbynnau, nid ag unigolion, ac mae'r datgysylltiad hwn rhwng allbynnau ac unigolion hefyd yn golygu nad oes gan ddyraniad allbynnau i UoAs unrhyw oblygiadau i unigolion.

At hynny, dim ond i lywio cyfansoddiad cyflwyniad PA i REF 2029 y bydd unrhyw sgoriau asesu a ddyrennir i allbynnau drwy'r broses a ddisgrifir yn Rhan 5 yn cael eu defnyddio ac ni fyddant yn cael eu defnyddio gan PA at unrhyw ddiben arall, gan gynnwys fel rhan o unrhyw adolygiad perfformiad neu ddyrchafiad staff. Felly, mae'r broses o ddewis allbwn yn niwtral (h.y. nid yw'n cael unrhyw effaith, gadarnhaol neu negyddol) ar y staff. Er hynny, yn y dyfodol, bydd EIAs meintiol yn cael eu cynnal i nodi unrhyw wahaniaethu anfwriadol posibl a/neu i nodi unrhyw ganlyniadau neu gyfleoedd cadarnhaol i hybu cydraddoldeb. Bydd cyfuniad o hunan-enwebu allbynnau gan ymchwilwyr a sgrinio allbynnau cymwys gan Grwpiau Goruchwylio Uned a/neu Grwpiau Cyflwyno Uned yn cael eu defnyddio, i osgoi materion posibl o hunan-eithrio allbynnau. Bydd asesiadau'n cael eu gwneud i weld pa mor gynrychioliadol yw'r cyflwyniad o ran amrediad y pwnc a'r gweithgareddau ymchwil.

# Rhan 6: Atodiadau

## 6.1 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae Cod Ymarfer PA ar gyfer REF 2029 yn ddogfen fyw y disgwylir iddi esblygu yn ystod cylch REF 2029, gan gynnwys mewn ymateb i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) ac Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg (WLIAs) wrth ddatblygu a chymhwyso Cod PA, ac mewn ymateb i ganllawiau yn y dyfodol sydd eto i'w cyhoeddi gan REF 2029 (*e.e.* ynghylch cynnal a chymeradwyo Cod yn y dyfodol a grybwyllir yn adran 13.7 o'r canllawiau ar God REF 2029). Mae defnyddio EIAs a WLIAs yn broses ailadroddus sydd hefyd yn esblygu drwy gylch y REF.

Wrth ddatblygu'r Cod, ystyriwyd cwestiynau craidd yr EIA (a nodir isod) i asesu a oedd y polisïau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â REF a amlinellir yng Nghod PA yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) PA. Cymhwyswyd y dull hwn er mwyn ystyried penderfyniadau ynghylch i) adnabod contractau staff sydd â Chyfrifoldeb Arwyddocaol dros Ymchwil (SRR), ii) pennu Annibyniaeth Ymchwil (RI), iii) dyrannu contractau i UoAs, a iv) dewis allbynnau. Bydd y cwestiynau craidd hyn hefyd yn cael eu hystyried yn y dyfodol wrth gymhwyso neu ddiweddaru Cod PA ar gyfer REF 2029:

Cwestiynau craidd yr EIA

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon
  - A allai'r broses neu'r penderfyniad hwn hepgor neu anfanteisio pobl sydd â nodweddion gwarchodedig mewn modd anghymesur?
  - A oes unrhyw feini prawf, systemau, neu arferion yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol (hynny yw, yn niwtral ar yr wyneb ond yn anghyfartal o ran eu heffaith)?
  - A oes addasiadau rhesymol wedi'u hystyried neu wedi'u cymhwyso lle bo'n briodol?
  - A oes unrhyw arferion etifeddol neu ragdybiaethau diofyn a allai osod grwpiau penodol dan anfantais?

- Hybu cyfle cyfartal
  - A oes rhwystrau sy'n atal mynediad neu gyfranogiad wedi'u nodi ac wedi'u datrys?
  - A oes gan bob grŵp staff perthnasol gyfle teg i gyfrannu at y broses hon, elwa ohoni, neu gael eu hystyried ynddi?
  - A ydym wedi defnyddio data wedi'i ddadagregu i fonitro cynrychiolaeth, cyfranogiad neu ddeilliannau?
  - A oes cyfleoedd i ddylunio'r broses hon mewn ffordd sy'n mynd ati i ategu cynhwysiant neu'n cydnabod cyfraniadau amrywiol?
  - A oes camau wedi'u cymryd i leihau gorddibyniaeth ar fetrigau neu gonfensiynau a allai hepgor rhai grwpiau yn strwythurol?

- Meithrin perthynas dda

- A oes ymgynghori neu ymgysylltu wedi bod â grwpiau staff perthnasol neu rwydweithiau cydraddoldeb?
- A yw’r broses wedi’i chyfleu’n glir ac yn dryloyw, gyda rhesymau a llwybrau ar gyfer adborth?
- A allai’r ymagwedd helpu i adeiladu hyder mewn tegwch ac ymddiriedaeth ar draws gwahanol grwpiau?
- A yw’r staff yn cael eu hannog i godi pryderon neu awgrymiadau mewn ffordd adeiladol â chymorth?

Bydd EIAs yn cynnwys data meintiol ynghylch proffil gwahanol garfannau staff PA (gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, gallu yn y Gymraeg, a statws amser-llawn a rhan-amser) o’i gymharu â data meincnodi, er mwyn caniatáu inni ddadansoddi canlyniadau defnyddio’r Cod ac unrhyw ddatblygiad pellach ar y Cod i liniaru risgiau posibl a deilliannau andwyol.

6.2 Datblygu'r Cod, ymgysylltu â'r Cod ac adborth ar y Cod

Mae'r Cod ar gyfer REF 2029 yn adeiladu ar brofiad a phrosesau Cod PA ar gyfer REF 2021 lle bo modd.

Cafodd Cod PA ar gyfer REF 2029 ei ddatblygu a'i fireinio trwy fewnbwn gwahanol adrannau, grwpiau a phwyllgorau yn y brifysgol, gan gynnwys grwpiau gwarchodedig a rhwydweithiau staff, a thrwy amrywiol gyfleoedd ymgysylltu ac adborthi, fel yr amlinellir yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| **Haf i Hydref 2025 – Llunio prosesau drafft cynnar y Cod** | Cyflwynwyd elfennau o'r Cod a'r prosesau posibl dan sylw i Ddeoniaid Cyswllt ar gyfer Ymchwil, Penaethiaid Adran/Ysgol/Sefydliad (HoDs) a'u Cyfarwyddwyr Ymchwil (DoRs). |
| **Gaeaf i Wanwyn 2026** | Datblygu drafft ysgrifenedig llawn o'r Cod; ei ystyried gan Ddirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol y Cyfadrannau dros Ymchwil, y Rheolwr REF a Monitro Ymchwil, y Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil Dros Dro, a'r adran Adnoddau Dynol.<br><br>Yna rhannwyd y Cod drafft diwygiedig gyda'r grwpiau a ganlyn, a gofynnwyd am adborth (gan gynnwys drwy fecanwaith adborthi dienw oedd yn agored i holl staff PA):<br>• Uwch Weithrediaeth PA<br>• Canolfan Gwasanaethau Cymraeg PA, a dau Ddirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol y Gymraeg<br>• Cyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Ymchwil y Gyfadrannau ar y Cyd<br>• Undebau Llafur<br>• Grŵp Asesu Ymchwil mewn Modd Cyfrifol (RRAG)<br>• Grwpiau Gwarchodedig a grwpiau allweddol eraill (gan gynnwys Rhwydwaith Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; Rhwydwaith Anabledd a Llesiant; Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb; Rhwydwaith Staff LGBT; Grŵp Cymorth Peri/Post/Menopos; Rhwydwaith Menywod mewn Ymchwil; Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar)<br>• Neges ebost uniongyrchol at yr holl staff gan y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi yn rhannu'r Cod drafft a'r mecanwaith adborthi dienw, gwahodd sylwadau, a hefyd rhannu gwahoddiadau i sesiynau ymgysylltu personol<br>• Neges ebost i staff PA sy'n weithredol mewn ymchwil, gan rannu Cod drafft, mecanwaith adborthi dienw, a gwahoddiadau i sesiynau ymgysylltu personol<br>• Sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb dan arweiniad y Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil a'r Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi<br>• Ar ôl ystyried adborth drwy'r gwahanol grwpiau a dulliau uchod, cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cod i'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn gofyn am unrhyw sylwadau pellach ac argymhelliad y dylai gael ei gyflwyno<br>• Fersiwn derfynol o'r Cod yn cael ei hystyried i'w chymeradwyo gan Grŵp Cyflwyno REF (RSG) (cyn ei gyflwyno i REF 2029 erbyn hanner dydd ar 15 Mai) |